

## ROBERTS, PETER (1760 - 1819), clerigwr, ysgolhaig Beiblaidd a hynafiaethydd

**Enw:** Peter Roberts

**Dyddiad geni:** 1760

**Dyddiad marw:** 1819

**Rhiant:** John Roberts

**Rhyw:** Gwryw

**Galwedigaeth:** clerigwr, ysgolhaig Beiblaidd a hynafiaethydd

**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Hanes a Diwylliant; Ysgolheictod ac Ieithoedd

**Awdur:** Robert Thomas Jenkins

Ganwyd 1760 yn Nhai'n-y-nant, Rhiwabon, sir Ddinbych. Enillodd ei dad, JOHN ROBERTS, mab i rydd-ddeiliad yn Rhiwabon, enwogrwydd fel gwneuthurwr clociau. Ymddengys ei enw ar restr y tanysgrifwyr i *Dewisol Ganiadau*, a gyhoeddwyd yn 1759 gan [Huw Jones](#) o Langwm. Bu John Roberts yn byw yn Wrecsam o 1764 hyd ar ôl 1771, a gwnaeth gloc i Izaak Walton ([Peate](#), *Clock and Watch Makers of Wales*, 60-1). Addysgwyd Peter Roberts yn gyntaf yn ysgol ramadeg Wrecsam, ac yna (o tua 1775) yn ysgol ramadeg Llanelwy. Wedi hyn bu'n athro preifat ar y disgyblion Gwyddelig yn yr ysgol honno, ac arweiniodd hynny i'w gofrestri (fel isar) yng Ngholeg y Drindod, Dulyn, lle y graddiodd yn M.A. Parhaodd i astudio Hebraeg a seryddiaeth, ac yr oedd ganddo beth achos i obeithio mai ef a gai ddilyn Henry Ussher fel athro seryddiaeth yng Ngholeg y Drindod, Dulyn. (Ni chafodd y swydd honno, fodd bynnag). Er mwyn ceisio gwellhad o afiechyd bu raid iddo symud i fyw yn nyffryn Barèges yn Ne Ffrainc yn 1789. Dychwelodd i Iwerddon a bu'n athro teuluol. Yn ddiweddarach aeth i Eton gyda dau o'i ddisgyblion. Ar ddiwedd arhosiad y bechgyn yn yr ysgol honno, rhoddwyd iddo bensiwn gan ddau o'i ddisgyblion. Tra'r oedd yn Eton gorffennodd Roberts ei *Harmony of the Epistles*, a gyhoeddwyd ar draul Prifysgol Caergrawnt yn 1800. Dychwelodd i Gymru ac astudio hynafiaethau Cymreig. Yn 1810 penodwyd ef yn ficer Llanarmon yn Nyffryn Ceiriog. Yng Nghroesoswallt, fodd bynnag, yr oedd yn byw, ac ysgrifennodd hanes y dref honno. Cyhoeddwyd y gwaith yn ddiennw yn 1815. Tua 1814 gwnaed ef yn ficer Madeley yn swydd Amwythig, ac yn 1818 rhoddwyd iddo reithoriaeth Helygain (Halkyn), Sir y Fflint. Tra'n gwasanaethu yno trechwyd ei hynawsedd a'i radlonedd gan waeledd a phregethu go gyffredin. Bu farw ar ddydd Sul, 30 Mai 1819 (21 Mai yn ôl *D.N.B.* a *Geiriadur Bywgraffyddol o Enwogion Cymru*. Y mae'r ' 1839 ' a awgrymir yn *Archæologia Cambrensis*, 1863, yn amlwg yn wall argraffu). Yn ychwanegol at y cyfrolau a nodwyd uchod, ac at weithiau eraill ar ddiwinyddiaeth a seryddiaeth, cyhoeddodd *A Sketch of the Early History of the Cymry (700 B.C.-A.D. 500)*, 1803; *The Chronicles of the Kings of Britain*, 1811; a'i waith adnabyddus *Cambrian Popular Antiquities*, 1815 (gyda lluniau lliw). Cyhoeddwyd argraffiad Cymraeg o'r olaf yng Nghaerfyrddin yn 1823, gyda lluniau gan [Hugh Hughes](#) (1790 - 1863).

### Awdur

Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins, (1881 - 1969)

### Ffynonellau

*Oxford Dictionary of National Biography*

*Geirlyfr Bywgraffiadol o Enwogion Cymru* (1870)

Josiah Thomas Jones, *Geiriadur Bywgraffyddol o Enwogion Cymru (Aberdâr 1867-70)*, ii, 498-500

*Archaeologia Cambrensis*, 1863 (60)

## Dolenni Ychwanegol

VIAF: [71739321](#)

Wikidata: [Q18783892](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1970

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

